



**Academi Genedlaethol ar gyfer  
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru  
National Academy for  
Educational Leadership Wales**

**Cofnodion/Nodiadau Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd 25 Mawrth 2021 trwy  
Teams**

Yn bresennol: Sue Davies (SD) (Cadeirydd)  
Tegwen Ellis (TE) (Prif Weithredwr)  
Kirsty Payne (KP)  
Claire Williams (CW)  
Mike James (MJ)  
Martin Price (MP)  
Davina Payne (DP)  
Rosemary Jones OBE (RJ)  
Paul Marshall (PM)  
John Graystone (JG)  
Kate Lewis (KL)  
Gaynor Ace (GA) (Ysgrifenyddiaeth)

Hefyd yn bresennol y tu allan i'r prif fusnes:

Yr Athro David Egan (DE) (LIC)  
Jeremy Griffiths (JeG) (Cydyrnaith)  
Lloyd Hopkins (LH) (LIC)  
Sonny Singh (SS)

*1. Croeso, cadarnhau cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf*

Cadeiriwyd rhan gyntaf y cyfarfod gan RJ oherwydd problemau technegol SD. Croesawyd KL i'r Bwrdd. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Michaela Renkes. Ni chofnodwyd unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod gwir a chywir. Cyfeiriodd RJ at y Cofnod Gweithredu o gyfarfod diwethaf y Bwrdd a nododd fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau bellach.

O safbwynt y camau gweithredu sy'n parhau:

- Cam Gweithredu 153 – Disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2021
- Cam Gweithredu 157 – Roedd SD wedi mynychu'r ddau is-bwyllgor fel sylwedydd y mis hwn, a ystyriwyd yn ffordd ddefnyddiol ymlaen ar gyfer y cam gweithredu hwn
- Camau Gweithredu 159/166 – Camau gweithredu'n parhau

- Cam Gweithredu 167 - Wedi'i symud i fis Gorffennaf, sef dyddiad gadael Meilyr Rowlands.

Trosglwyddodd RJ ddyletswyddau'r Cadeirydd i SD. Mynegodd SD ei diolch i ddau Gadeirydd yr is-bwyllgorau am ei chroesawu fel sylwedydd i'r cyfarfodydd diweddar. Rhannodd yr wybodaeth ddiweddaraf â'r Bwrdd am rai sesiynau hyfforddi roedd wedi'u mynychu yn ddiweddar, fel cynhadledd Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a sesiwn ar seibergadernid sydd, fel y cadarnhawyd yn ddiweddarach gan PM, wedi'i chynnwys yng nghofrestr risgiau'r Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol (Academi Arweinyddiaeth).

## 2. Adroddiad y Pwyllgor Cyllid / Adnoddau Dynol

Cyflwynodd JG adroddiad ar gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cyllid/Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 12 Mawrth 2021.

Roedd y cyfarfod hwn wedi canolbwyntio'n benodol ar y gostyngiad yn nyraniad cyllideb yr Academi Arweinyddiaeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. I ddechrau, roedd Llywodraeth Cymru wedi cynnig gostyngiad o £400,000 ond yn dilyn cyfarfod gyda TE a KP, roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ystyried gostyngiad o £200,000. Roedd y pwyllgor wedi ystyried effaith y toriadau arfaethedig yn y gyllideb ar y gwahanol ffrydiau gwaith a dulliau gweithio. Dywedodd TE fod meysydd fel arloesedd, cynllunio gweithlu strategol a gweithio wyneb yn wyneb wedi cael eu heffeithio'n sylweddol. Ni fyddai arian ar gael ychwaith i allu cynnal swyddfa ffisegol dros y 12 mis nesaf.

Cytunwyd y byddai rhagor o doriadau wedi cael effaith sylweddol ar gynnal yr Academi Arweinyddiaeth yn ei chyfanrwydd – fel sefydliad sy'n tyfu, ei nod yw datblygu ac nid aros yn ei unfan. Ar ôl llawer o drafod, roedd y pwyllgor wedi cymeradwyo'r gyllideb ddiwygiedig a baratowyd gan KP.

Mae materion wedi symud ymlaen ers y cyfarfod hwn gan fod llythyr grant wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru ddoe yn cynnig swm ychwanegol o £65,000 nad oedd wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddiwygiedig. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno'n glir i ariannu unrhyw brosiectau newydd y bydd yn eu cynnig. Gobeithir y bydd hyn yn gweithio'r ddwy ffordd trwy ganiatáu i'r Academi Arweinyddiaeth nodi unrhyw ddyluniadau prosiect perthnasol i Lywodraeth Cymru at ddibenion ariannu.

Cynhelir cyfarfod rheoli'r prynhawn yma i ystyried y ffordd orau i ddyrannu'r arian ychwanegol hwn. **Cynigiodd MP y dylid cynnal cyfarfod eithriadol o'r pwyllgor Cyllid ac Adnoddau Dynol yn dilyn y cyfarfod hwn** er mwyn cytuno ar gyllideb ddiwygiedig arall sy'n cynnwys y dyraniad newydd. Roedd pawb yn cytuno â'r cynnig hwn.

Mynegodd JG ei ddiolch i TE a'r tîm am eu gwaith yn negodi'r setliad mwy ffafriol hwn ac am lunio cyllidebau diwygiedig i'w gynnwys. Diolchodd SD i JG am ei adroddiad.

## 3. Adroddiad y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Cyflwynodd PM yr adroddiad o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2021.

Nododd PM mai prif ddiben y pwyllgor hwn yw adolygu'r gofrestr risgiau a oedd bellach mewn sefyllfa her. Roedd y pwyllgor wedi cytuno i gynnal adroddiadau at wraidd y mater yn ymwneud â risgiau unigol er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth well o natur y risgiau a sicrhau bod camau lliniaru cadarn a phriodol ar waith. Yna gallai'r pwyllgor roi sicrwydd cyffredinol i'r Bwrdd bod yr holl risgiau a chamau lliniaru yn cael eu hadlewyrchu'n gywir yn y gofrestr risgiau.

Man cychwyn yr ymarferiad hwn oedd adroddiad at wraidd y mater ar arweinyddiaeth y system, a bydd yn parhau yng nghyfarfod mis Mai trwy ystyried y broses gymeradwyo yn fanwl.

Roedd y Fframwaith Sicrwydd Risg yn cynnwys tair llinell amddiffyn lle nodwyd risgiau er mwyn adlewyrchu'n well pwy neu beth sy'n gyfrifol am reoli risg. Hefyd, mae'r Academi yn dibynnu ar ddilysu allanol i sicrhau bod y systemau sydd ar waith yn briodol. Mae PM yn ymwybodol bod rhai bylchau o hyd yn y fframwaith hwnnw ond mae'n gweithio gyda'r rheolwyr i fynd i'r afael â hyn. Cyfeiriodd at archwiliad diweddar ar seiberddiogelwch lle nodwyd bod hon yn risg isel iawn ar gyfer yr Academi Arweinyddiaeth. Dilysir hyn trwy archwiliad mewnol hefyd.

Roedd yr archwiliad mewnol wedi gwneud nifer o argymhellion i'w gweithredu a'u monitro gan y pwyllgor. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu eisoes wedi'u cwblhau, ar wahân i nifer fach nad ydynt wedi'u cwblhau am resymau gwahanol fel effaith Covid. Derbyniodd y pwyllgor adroddiad 'seren aur' gan yr Archwiliad Mewnol.

Cyfeiriodd PM at y Cynllun Archwilio, sef cynllun treigl sy'n cwmpasu nifer o flynyddoedd. Mae'r Cynllun yn pennu blaenoriaethau ond gellir eu diwygio yn ôl yr angen i adlewyrchu'r amodau presennol. Dyma'r blaenoriaethau presennol sydd wedi'u cytuno gyda'r rheolwyr: marchnata, TGCh/seiberddiogelwch, recriwtio a datblygu Cymdeithion a llywodraethu.

Roedd y polisi gwrth-dwyll eisoes wedi'i gytuno gan y Bwrdd, a oedd wedi gofyn am siart llif er eglurder cyn hynny. Cadarnhaodd PM fod y siart llif wedi'i ychwanegu at y polisi.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn manylu ar yr holl waith a gweithgareddau a gwblhawyd gan y Pwyllgor Archwilio dros y flwyddyn ddiwethaf. Ar sail yr holl dystiolaeth, mae PM yn hyderus bod y pwyllgor yn ymdrin ag archwiliadau a risg yn briodol a bod gan yr Academi Arweinyddiaeth sicrwydd da iawn.

Mae SD yn hapus i gymeradwyo'r Cynllun Archwilio ar ran y Bwrdd ac roedd yn llongyfarch y pwyllgor ar dderbyn adroddiad archwilio mor dda. Mae SD yn awyddus iawn i weld y dull adroddiad at wraidd y mater yn cael ei ddilyn gan y dylai fod yn ddefnyddiol iawn. Diolchodd SD i PM am ei adroddiad.

#### *4. Adroddiad y Prif Weithredwr yn erbyn y Cynllun Corfforaethol*

Cyflwynodd TE ei hadroddiad fel Prif Weithredwr yn myfyrio ar ba mor bell y mae'r Academi Arweinyddiaeth wedi datblygu dros y flwyddyn ddiwethaf wrth symud ei holl waith ar-lein. Ar un ystyr, gellir ystyried y presenoldeb digidol cynyddol fel cam cadarnhaol iawn. Hefyd, roedd TE yn cydnabod rhai o'r heriau wrth weithio fel hyn, yn enwedig wrth ystyried llesiant staff sy'n anos i'w fonitro o bell. Gall meithrin a chynnal cysylltiadau fod yn fwy heriol hefyd, ac mae TE yn edrych ymlaen at sicrhau cydbwysedd gwell rhwng dulliau gweithio wrth symud ymlaen.

Cyflwynodd TE yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ei PhD - mae ei chynnig ymchwil wedi'i dderbyn gan y brifysgol ac mae'r gymeradwyaeth foeseq wedi'i derbyn. Diolchodd i bawb am eu cefnogaeth wrth symud ymlaen gyda'r gwaith hwn.

Mae Cam 1 sicrwydd/cymeradwyaeth ansawdd wedi'i gwblhau ac mae 6 darparwr wedi symud ymlaen i gam 2. Nodwyd bod yr holl ddarpariaethau a gyflwynwyd yn addawol ond nid oedd pob ffurflen gais wedi'i chwblhau yn eglur. Mae TE yn obeithiol y bydd gweddill y darparwyr yn ailgyflwyno eu ceisiadau yn yr alwad yn yr Hydref. Mae gwaith gyda'r tair gwlad yn parhau i dyfu a nodwyd ei fod yn ychwanegiad defnyddiol at y broses Sicrhau Ansawdd.

Bu mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y sector ôl-16. Mae unigolion ar secondiad wedi gwneud cyfraniad defnyddiol at y broses hon. Mae'r Academi Arweinyddiaeth yn awyddus i sefydlu cytundebau partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol; byddai hyn yn helpu i nodi meysydd lle mae cydweithredu'n fanteisiol ac yn atal dyblygu. Hefyd, mae TE yn ymwybodol o bwysigrwydd monitro yn y broses Sicrhau Ansawdd, ac mae wedi bod yn awyddus i sicrhau bod Cymdeithion yn gwneud cyfraniad allweddol at y broses hon.

Mae TE wrth ei bodd â sut mae'r maes arloesi yn cael ei ddatblygu a'i hyrwyddo, ond mae'n ymwybodol o'r toriadau i'r gyllideb arloesi. Bydd hyn yn golygu bod angen i'r Academi Arweinyddiaeth weithio mewn ffordd fwy cystadleuol nawr i sicrhau'r gwerth gorau am arian.

Mae arweinyddiaeth y system yn cael ei gwerthuso ar hyn o bryd a **bydd TE yn rhannu'r adroddiad (a ddisgwyllir erbyn diwedd mis Mai) gyda'r Bwrdd.**

Gobeithir y bydd y gwerthusiad hwn yn adlewyrchu penderfyniadau ar sut mae'r Academi Arweinyddiaeth yn recriwtio ymgeiswyr ar gyfer Carfan 4, gan ehangu o bosibl y tu hwnt i'r sector ysgolion.

Nododd TE y bydd tymor olaf Carfan 1 yn dod i ben yn ystod yr haf, felly bydd angen ystyried sut mae'r Academi Arweinyddiaeth yn gallu ei chynnal o dan y model cyn-gyfranogwyr er mwyn cefnogi gwaith y sefydliad wrth symud ymlaen.

Gobeithir y bydd Canllawiau ar Arwain Dysgu Proffesiynol ar gael erbyn diwedd mis Ebrill; e-ddogfen ryngweithiol fydd hon a bydd yn parhau mor fyw â phosibl er mwyn adlewyrchu'n gywir yr hyn sy'n digwydd yn y sector. Bydd yr e-ddogfen yn cael ei gwerthuso'n barhaus i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn addas i'r diben.

Mae'r digwyddiad 'mewn sgwrs' diweddar yn ymwneud â'r wythnos anghymesur mewn ysgolion wedi cael derbyniad da iawn, sy'n profi bod cynnal digwyddiadau byw

yn y fformat hwn yn ennyn llawer o ddiddordeb. Mae'r papur ar arweinyddiaeth ganol wedi'i gwblhau ond mae angen ei gyfieithu cyn ei gyhoeddi.

Cyflwynodd TE yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am elfen llesiant y gwaith. Mae'r fforwm Pen-i-ben yn parhau i dyfu'n wythnosol, felly bydd angen ystyried sut mae'r Academi Arweinyddiaeth yn parhau i gefnogi'r fenter hon. Ar hyn o bryd mae Cymdeithion yn derbyn hyfforddiant hwyluso i'r perwyl hwn.

Mae papur sy'n cynnwys manylion sefyllfa'r strategaeth ar gyfer llesiant yn cael ei ddosbarthu ledled Cymru ar hyn o bryd.

O safbwynt corfforaethol, mae'r gyllideb eisoes wedi'i thrafod o dan Baragraff 2 uchod. Mae gwelededd yr Academi yn gwella'n sylweddol, fel y dengys ystadegau data'r cyfryngau cymdeithasol. Dylai'r broses o lansio'r wefan newydd ar ôl y Pasg wella sefyllfa'r hon ymhellach.

Hefyd, bwriedir cynnal cyfres o sioeau teithiol ar ôl y Pasg ym mhob rhanbarth ar lefel Awdurdod Lleol. Mae nifer y bobl sy'n mynychu pob digwyddiad a sioe deithiol wedi bod yn addawol iawn.

Diolchodd SD i TE am adroddiad cynhwysfawr iawn, ac mae'r hyn sydd wedi'i gyflawni gan y tîm yn ystod cyfnod heriol wedi creu argraff fawr arni. Roedd SD a JG wrth eu bodd â'r dull cenedlaethol o ymdrin â llesiant. Mewn ymateb i ymholiad JG ynglŷn â'r amserlen ar gyfer yr adroddiad llesiant, cadarnhaodd TE mai'r bwriad oedd cwblhau'r ddogfen erbyn mis Gorffennaf i'w chyflwyno i'r gweinidog newydd am gymeradwyaeth.

##### *5. Cyflwyniad ar y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Ymchwil ac Ymholiad Addysgol*

Croesawodd SD yr Athro David Egan (DE) i'r cyfarfod, a ddywedodd ei fod yn croesawu'r cyfle i wneud cyflwyniad i'r Bwrdd.

Siaradodd DE am y gwaith sydd wedi'i wneud dros y 3 blynedd diwethaf ers i Weinidog Addysg Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddatblygu'r strategaeth genedlaethol gyntaf. Dyma brif amcanion y gwaith hwn:

- Cefnogi polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Datblygu gallu ymchwil addysgol ym maes addysg uwch
- Datblygu proffesiwn addysg sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Cytunwyd ar y blaenoriaethau canlynol ar gyfer y strategaeth genedlaethol: cwricwlwm ac addysgeg, arweinyddiaeth a dysgu proffesiynol, addysg Gymraeg a dwyieithog, tegwch a chynhwysiant ac adferiad ar ôl Covid.

Cyfeiriodd DE at yr heriau wrth ddatblygu proffesiwn addysg sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan wneud cymariaethau â'r proffesiwn iechedd sydd wedi cynnwys yr elfennau hyn ers amser maith. Nid yw'r sylfaen dystiolaeth mor gryf yn y sector addysg, ac mae ymchwil academaidd wedi cael dylanwad bach iawn ar benderfyniadau athrawon yn gyffredinol. Mae DE yn credu bod angen mwy o ddefnydd o dystiolaeth ryngwladol wrth symud ymlaen, a phwysleisiodd fod angen

mwy o ymchwil o ansawdd uchel mewn fformat hygyrch ar gyfer athrawon. Yn ogystal â sicrhau bod rhaglenni addysg athrawon newydd yn fwy seiliedig ar ymchwil, byddai angen cyllid ychwanegol gan y llywodraeth yn y maes hwn i wneud y dull gweithredu hwn yn hyfyw.

Amlinellodd DE waith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yng Nghymru gan gynnwys y Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol, Addysg Gychwynol i Athrawon, gwaith ymholi arall, dysgu proffesiynol a gwaith ar lefel ysgol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae'r gwaith hwn ar yr ymylon i raddau helaeth gan nad yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn cymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn.

Pwysleisiodd DE fod angen datblygu model ar gyfer proffesiwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan nodi bod cyfraniad y canlynol yn allweddol yn y cyswllt hwn: Llywodraeth Cymru, SAU, ysgolion Hyb, pob ysgol arall, ALI a chonsortia a'r Academi Arweinyddiaeth. Mae Carfan 3 wedi bod yn gweithio gyda DE i edrych ar broffesiynau eraill ac ystyried yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru ar hyn o bryd.

I gloi, cyfeiriodd DE at ei ymweliad â Huntington Research School lle mae addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi sicrhau canlyniadau rhagorol.

Mynegodd MJ rywfaint o syndod nad yw addysg yn cael ei chynnal fel gwasanaeth proffesiynol ar hyn o bryd, a gofynnodd am y cysylltiad rhwng polisi addysgol a pholisi economaidd. Mewn ymateb, dywedodd DE fod y broses yn cryfhau ac yn datblygu'r proffesiwn, fel sydd wedi digwydd gyda'r proffesiwn nyrsio. Cadarnhaodd y cysylltiad â pholisi economaidd hefyd.

Siaradodd CW am gyfranogiad ei hysgol bresennol yn y prosiect hwn, ond cyfeiriodd hefyd at ei hysgol flaenorol a oedd mewn sefyllfa wahanol iawn. Cytunodd DE fod galluogi pob ysgol i gymryd rhan yn y prosiect yn bwysig er mwyn sicrhau'r manteision.

Gofynnodd JG am nodweddion ysgol sy'n seiliedig ar dystiolaeth a sut y gellid cyflwyno'r newid diwylliant hwn. Roedd DE o'r farn bod hwn yn gwestiwn pwysig iawn sy'n ymwneud ag arweinyddiaeth yn gyffredinol. Mae hyn yn allweddol i'r dull gweithredu mewn ysgol. Hefyd, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru greu amgylchedd sy'n galluogi proses o ddatblygu proffesiwn sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Mynegodd SD ei diolch i DE am gyflwyniad diddorol iawn sy'n ysgogi'r meddwl ac yn enghraifft dda o ba mor effeithiol mae cydweithio ledled Cymru yn gallu bod i sbarduno newid.

## *6. Diweddariad ar Gymdeithion*

Croesawodd SD Jeremy Griffiths (JeG) i'r cyfarfod i roi cyflwyniad i'r Bwrdd am ei brofiadau fel Cydymaith dros y 3 blynedd diwethaf.

Siaradodd JeG am y ffaith bod y rôl hon wedi rhoi cyfleoedd gwych iddo a'i helpu i gael ei benodi i swydd ran-amser Cyfarwyddwr Gweithredol Caban yn ddiweddar. Croesawodd yn benodol gyfleoedd rhwydweithio'r rôl hon a oedd wedi ei gynorthwyo yn ei ddatblygiad fel arweinydd system.

Pwysleisiodd JeG fod angen ymrwymo'n llawn i rôl Cydymaith er mwyn manteisio ar y cyfleoedd. Mae wedi bod yn awyddus i fanteisio ar bob cyfle sydd wedi'i gynnig iddo. Roedd yr uchafbwyntiau'n cynnwys cyfle i wneud cyflwyniad mewn cynhadledd ym Moroco, a chyfle i gyfarfod â llawer o bobl ddylanwadol y mae wedi'u hedmygu o bell yn y gorffennol.

Mae tri Chydymaith arall wedi gofyn iddo fod yn fentor iddynt, ac mae wedi croesawu'r cyfle hwn i rannu rhywfaint o'i wybodaeth a'i brofiad er mwyn cynorthwyo eu datblygiad.

Dywedodd JeG fod cryfder yr Academi yn deillio o gryfder cyfunol ei gweithwyr cyflogedig a'i Chymdeithion, ac mae'r ffaith ei fod wedi cyfrannu at y llwyddiant hwn yn destun balchder iddo. Mae o'r farn bod y rhaglen Gydymaith yn sefyllfa lle mae pawb ar ei ennill am y rheswm hwn.

Mewn ymateb i ymholiad JG ynglŷn â sut y gellid gwella'r rhaglen Gydymaith, awgrymodd JeG y dylid ystyried datblygu'r model cyn-gyfranogwyr, ac o bosibl defnyddio Cymdeithion blaenorol mewn rôl ymgynghori.

Cadarnhaodd SD fod rôl y cyn-gyfranogwyr yn cael ei thrafod ar hyn o bryd. Diolchodd i JeG am ei gyflwyniad ac am ei frwdfrydedd a'i ymroddiad i'r gwaith dros y blynyddoedd diwethaf.

## *7. Cyflwyniad ar Gwricwlwm Newydd i Gymru*

Croesawodd SD Lloyd Hopkins (LH) a Sonny Singh (SS) o Lywodraeth Cymru a oedd am roi cyflwyniad ar y cwricwlwm newydd i Gymru.

Cyflwynodd LH drosolwg cryno o'r cynnydd wrth ddatblygu'r cwricwlwm gan bwysleisio bod gofyn i ysgolion wneud mwy o gyfraniad at gynllunio'r cwricwlwm a gwneud penderfyniadau am yr hyn y dylai eu dysgwyr ddysgu.

Cyfeiriodd at ddatganiad Cenhadaeth ein Cenedl sy'n nodi disgwyliadau ac yn manylu ar y camau y bydd disgwyl i ysgolion eu cymryd. Mae hyn wedi arwain at ddatblygu cynllun gweithredu'r cwricwlwm ('Y Daith i 2022') sy'n gwneud cysylltiadau â'r cyd-destun polisi cyffredinol ac yn nodi'r weledigaeth a'r dyheadau hirdymor. Hefyd, cyfeiriodd LH at y cymorth a fyddai ar gael i ysgolion a'r amserlenni gweithredu hyblyg sy'n cydnabod effaith Covid.

Bydd y cynllun yn helpu ysgolion i gynllunio eu dulliau gweithredu a threfnu eu gweithgareddau. Bydd angen iddynt:

- Addasu'r cwricwlwm presennol
- Datblygu eu cynllun eu hunain i alluogi dysgwyr i ddatblygu
- Sicrhau bod addysgu a dysgu rhagorol yn sylfaen i'r cwricwlwm cyfan
- Codi disgwyliadau ar gyfer dysgwyr.

Hefyd, mae'n nodi sut y cyflawnir hyn drwy broses o ddatblygu ar y cyd sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol ac Estyn. Bydd angen dealltwriaeth glir o'r

rhesymau dros ddysgu pethau ac ymrwymiad clir gan arweinwyr ar bob lefel o'r system addysg.

Nododd SS fod trafodaethau dan arweiniad ymarferwyr wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth ddiffinio meini prawf, a bod adborth cadarnhaol wedi dod i law yn ymwneud ag agweddau ar y cwricwlwm sydd wedi'u treialu. Bydd angen i'r cynllun gweithredu ystyried materion ehangach hefyd ac ystyried cyfarwyddebau'r llywodraeth i'w wneud yn fwy effeithiol.

Nododd LH ei fod yn ymwybodol iawn o'r angen i gefnogi ysgolion a'r system yn ei chyfanrwydd, o ystyried effaith enfawr Covid dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn benodol, efallai y bydd angen sicrhau cydbwysedd rhwng y galwadau gwahanol ar staff, darparu cymorth i ddatblygu sylfeini diogel ac ail-lunio'r system.

Mynegodd SD ei diolch i LH ac SS am gyflwyniad llawn gwybodaeth a gofynnodd am sylwadau a chwestiynau gan aelodau'r Bwrdd.

Roedd CW o'r farn bod y cwricwlwm newydd yn ddatblygiad cyffrous ond mynegodd bryder bod yr haen ganol yn cael ei hepgor yng Nghymru yn aml. Hefyd, pwysleisiodd ei bod yn bwysig sicrhau bod pob ysgol yn cymryd rhan yn y broses. Pwysleisiodd CW y ffaith y bydd llwyddiant y cwricwlwm yn dibynnu i raddau helaeth ar arweinyddiaeth addysgol, ac mae am weld rôl yr Academi Genedlaethol yn cael ei diffinio'n gliriach. Cytunodd SD y byddai'r Academi Arweinyddiaeth yn hoffi cyfrannu at y gwaith hwn.

Diolchodd SS i CW am godi pwyntiau mor ddiddorol, ond teimlai fod Llywodraeth Cymru yn deall rolau a chyfrifoldebau'r haen ganol, er ei bod yn bosibl bod rhai agweddau ar ei rôl yn gorgyffwrdd. Cytunodd ei bod yn bwysig ymgysylltu â phob ysgol a rhanddeiliad arall.

Cyfeiriodd RJ at ddiwedd y continwmm 3-16 a gofynnodd am ddyfodol cymwysterau gadael ysgol terfynol yng Nghymru sy'n sbarduno ymddygiad ac arddulliau dysgu yn y system bresennol.

Mae'r ymgynghoriad 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' wedi bod yn ystyried y mater hwn, ond mae RJ yn amau a yw'r cwestiynau cywir yn cael eu gofyn. Cytunodd LH na ddylai cynnwys y cwricwlwm mewn ysgolion uwchradd gael ei gynllunio'n gyfan gwbl gyda golwg ar gymwysterau arholiadau, ond y dylai gynnwys profiadau gwahanol ac amrywiol hefyd er mwyn hwyluso dysgu effeithiol. Byddai LH yn disgwyl i'w gydweithwyr o Lywodraeth Cymru drafod hyn gyda Cymwysterau Cymru ar ddiwedd eu cyfnod ymgynghori. Ychwanegodd SS y bydd gwaith parhaus ym maes perfformiad ysgolion yn effeithio ar ysgolion uwchradd ac y bydd mwy o gymorth ac eglurder yn cael eu darparu ar gyfer ysgolion wrth symud ymlaen.

## *8. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf, Unrhyw Fater Arall a Chau'r Cyfarfod*

Cafodd RJ ei llongyfarch gan SD ar ei rôl newydd fel aelod o Gyngor Partneriaeth y Gymraeg. Diolchodd i KP am ei holl waith a dymunodd yn dda iddi pan fydd ei chyfnod mamolaeth yn dechrau ar 14 Ebrill.



Atgoffodd RJ aelodau'r Bwrdd i edrych ar yr holiadur gan 'Cymwysterau Cymru' (cyfeiriwyd ato ym Mharagraff 7 uchod) ac ystyried y ffordd orau o ymateb. Diolchodd SD i RJ am dynnu sylw at hyn a chytunodd y gallai cysylltu perfformiad a chymwysterau â chynllunio'r cwricwlwm fod yn faner goch.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd ar 20 Mai.

Daeth y cyfarfod hwn i ben am 1pm.

### Cofnod Gweithredu

Rhif		Perchennog	Dyddiad cau	Statws
153	Adolygiad blynyddol o'r cylch gorchwyl	Pawb	Medi 2021	
157	Trefnu cyfarfodydd rhwng SD a chadeiryddion pwyllgorau cyn cyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol	KP	Mawrth 2021	
159	Gwahodd perchnogion risg i fynychu cyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol	KP	Parhaus	
166	Cynnal arfarniadau o aelodau'r Bwrdd	SD	Parhaus	
167	Diolch i Meilyr Rowlands am ei gefnogaeth	SD	Gorffennaf 2021	
168	Cynnull cyfarfod eithriadol o'r Pwyllgor Adnoddau Dynol a Chyllid i gytuno ar gyllideb ddiwygiedig	JG	Ebrill 2021	
169	Rhannu adroddiad ar arweinyddiaeth system gydag aelodau'r Bwrdd	TE	Mai 2021	